



Rheolau'r Bwrdd

Pwrrpas

Mae'r protocol hwn yn cefnogi ymddygiadau cadarnhaol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor drwy nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Gyfarwyddwyr y Bwrdd a'r rhai sy'n bresennol wrth gymryd rhan ym musnes y Bwrdd a'r Pwyllgor. Mae'n hyrwyddo gweithio parchus, adeiladol a thryloyw, ac yn cefnogi aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar sicrhau'r gwerth a'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru yn y tymor byr, canolig a hir. Mae hefyd yn egluro'r trefniadau ymarferol sy'n cefnogi paratoi, cyfranogiad a dilyniant effeithiol.

Rôl y Bwrdd a Chyd-destun Llywodraethu

Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yw corff llywodraethu'r sefydliad ac mae'n gweithredu fel Bwrdd llawn, neu drwy ei Bwyllgorau. Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi fel Bwrdd 'Unedol' sy'n golygu bod Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn gyfartal o amgylch y Bwrdd ac ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd.

Mae cyfarwyddwyr y Bwrdd yn gwneud y canlynol:

- ❖ llunio strategaeth
- ❖ sicrhau atebolrwydd
- ❖ llunio a datblygu tôn a diwylliant cadarnhaol sy'n cyd-fynd â phwrrpas y sefydliad
- ❖ gosod parodrwydd i dderbyn risg strategol a darparu llywodraethu a throsolwg o risgiau strategol
- ❖ goruchwyllo cyflawniad o'i gymharu â'r cynlluniau yn ystod y flwyddyn
- ❖ meithrin a chynnal partneriaethau strategol
- ❖ cynnal llywodraethu effeithiol

Mae'r ffordd y mae cyfarwyddwyr y Bwrdd yn ymddwyn tuag at ei gilydd ac yn cynnal busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor yn ganolog i stiwardiaeth effeithiol, gwneud penderfyniadau da, hyder y cyhoedd a'r diwylliant y mae'r Bwrdd yn ei osod ar gyfer y sefydliad. Mae'r ymddygiadau hyn yn cefnogi diwylliant sefydliadol adeiladol a phenderfyniadau effeithiol sy'n gwella canlyniadau i bobl Cymru.

Mae'r protocol hwn yn cefnogi cyfarwyddwyr y Bwrdd a'r rhai sy'n bresennol i gynnal gwerthoedd a safonau ymddygiad y sefydliad, cyfrannu'n adeiladol, a hyrwyddo busnes tryloyw, gwybodus a chynhwysol y Bwrdd a'r Pwyllgor.



Egwyddorion Ymddygiad Craidd

Mae'r egwyddorion canlynol yn gosod y safon ddisgwyliedig ar gyfer sut y dylai Cyfarwyddwyr y Bwrdd a'r rhai sy'n bresennol ymddwyn, cyfrannu a chynnal gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod busnes y Bwrdd a'r Pwyllgor, gan gefnogi diwylliant sy'n galluogi craffu effeithiol, trafodaeth adeiladol a chanlyniadau gwell.

Nid yw'r egwyddorion hyn yn disodli safonau presennol, gan gynnwys Egwyddorion Nolan, Codau Ymddygiad perthnasol a'r Polisi Safonau Ymddygiad. Maent yn disgrifio sut y dylid cymhwyso'r safonau hynny yn ymarferol yn ystod busnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau.

Gwerthoedd craidd, safonau a chyfrifoldebau

- ❖ ymgorffori gwerthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a chydweithio gydag ymddiriedaeth a pharch i wneud gwahaniaeth;
- ❖ cymhwyso Egwyddorion Nolan, Codau Ymddygiad perthnasol a'r Polisi Safonau Ymddygiad ym musnes y Bwrdd a'r Pwyllgorau;
- ❖ ystyried gwrthdaro buddiannau posibl cyn yr agenda a datgan unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl yn dryloyw a chyn gynted ag y byddant yn codi;
- ❖ trin gwybodaeth gyfrinachol a sensitif yn briodol;

Ymddygiad Bwrdd Adeiladol

- ❖ gwrandao'n weithredol, herio'n adeiladol a derbyn her gyda diffuantrwydd a pharch;
- ❖ parhau i ganolbwyntio, bod yn barod ac yn bresennol, gan reoli ymrwymadau cystadleuol mewn ffordd sy'n cefnogi cynnal busnes yn effeithiol;
- ❖ ceisio eglurhad ar bapurau neu faterion cyn cyfarfodydd lle bo hynny'n ymarferol ac yn ddefnyddiol, a chydabod nad yw hyn bob amser yn bosibl;
- ❖ gweithio drwy wahaniaethau yn adeiladol, gan geisio cytundeb lle bo modd gan barchu gwahanol safbwyntiau;
- ❖ dangos cyfrifoldeb ar y cyd, cefnogaeth a pharch cydfuddiannol at Gyfarwyddwyr eraill y Bwrdd, a dangos tryloywder a didwylledd;

Codi llais, cynhwysiant ac ansawdd trafodaeth

- ❖ cefnogi diwylliant Codi Llais heb Ofn drwy alluogi i bryderon, cwestiynau a gwahanol safbwyntiau gael eu codi'n agored, yn barchus a heb ofni niwed;
- ❖ parhau i fod yn effro i dybiaethau, rhagfarn a meddwl grŵp, gan annog amrywiaeth o safbwyntiau cyn dod i gasgliadau;

Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gynhwysol

- ❖ defnyddio tystiolaeth, sicrwydd a phwrpas strategol yr eitem i lywio cyfraniadau a gwneud penderfyniadau;
- ❖ gweithredu er lles iechyd y cyhoedd yn gyffredinol, a chadw pobl, defnyddwyr gwasanaethau, amrywiaeth, cynhwysiant, gwerth a chanlyniadau yn ganolog i wneud penderfyniadau yn y tymor byr, canolig a hir.



- ❖ cydnabod bod trafodaeth gynhwysol, barchus a gwybodus yn cefnogi penderfyniadau a chanlyniadau gwell.

Cyfrifoldebau llywodraethu ar draws cylch y cyfarfodydd

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r cyfrifoldebau allweddol cyn, yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor.

Cyn Cyfarfodydd

Cadeirydd / Prif Weithredwr / Cadeirydd y Pwyllgor / Prif Weithredwr	Arweinydd Gweithredol	Pob Cyfarwyddwr
•Cytuno ar gynlluniau gwaith, agendâu, olrhain penderfyniadau a ffynonellau sicrwydd •Canolbwyntio agendâu ar eitemau strategol, sicrwydd a phenderfynu •Adolygu effeithiolrwydd ac addasu cyfarfodydd yn y dyfodol	•Paratoi papurau yn brydlon ac i safonau y cytunwyd arnynt •Sicrhau bod pob eitem yn nodi ei phwrpas a rôl y Bwrdd / Pwyllgor. •Cytuno ar unrhyw eithriadau dyddiad cau neu bapur ymlaen llaw	•Darllen papurau a cheisio eglurhad ymlaen llaw •Blaenoriaethu presenoldeb a chytuno ar ddirprwyon lle bo angen.

Yn ystod Cyfarfodydd

Cadeirydd / Prif Weithredwr / Cadeirydd y Pwyllgor	Arweinydd Gweithredol	Pob Cyfarwyddwr
•Gosod y naws ar gyfer trafodaeth barchus, gynhwysol sydd â ffocws pendant. •Cefnogi her adeiladol a chyfraniadau cytbwys •Sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu'r drafodaeth, y dystiolaeth a'r egwyddorion y cytunwyd arnynt. •Sicrhau bod mwy o staff iau neu gyflwynwyr yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu a chodi cwestiynau yn ystod cyfarfodydd	•Fframio eitemau'n glir, gan gynnwys y pwrpas a'r materion allweddol. •Cefnogi craffu gwybodus trwy dystiolaeth, cyd-destun a sicrwydd.	•Gweithredu yn unol â'r egwyddorion cyffredinol. •Osgoi dyblygu a chyfrannu'n adeiladol. •Sicrhau bod ei gyfraniad yn cefnogi diwylliant, gwerthoedd, amrywiaeth a chynhwysiant •Derbyn her yn adeiladol ac ymateb gydag diffuantrwydd a pharch.



Ar ôl Cyfarfodydd

Cadeirydd / Prif Weithredwr / Cadeirydd y Pwyllgor

- Hyrwyddo myfyrto, dysgu a gwelliant parhaus.
- Sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu egwyddorion a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt.
- Cefnogi uwchgyfeirio pan fo angen sylw llywodraethu ehangach.

Arweinydd Gweithredol

- Cynnydd ar gamau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Rhoi sicrwydd ynghylch cyflawni, risgiau ac amserlenni.
- Uwchgyfeirio pryderon ynghylch cyflawni neu newidiadau i gwmpas lle bo angen.

Pob Cyfarwyddwr

- Cymryd rhan mewn gwerthuso a dysgu.
- Cyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.
- Rhoi sicrwydd neu graffu yn ôl yr angen.
- Rhannu canlyniadau, penderfyniadau a goblygiadau perthnasol gyda'u Cyfarwyddiaethau, gan sicrhau bod timau'n ymwybodol o faterion sy'n effeithio ar eu gwaith.



Cefnogi cyfranogiad effeithiol a chynhwysol

Mae'r adran hon yn nodi canllawiau ychwanegol i gefnogi cyfranogiad effeithiol a chynhwysol ar draws gwahanol amgylchiadau cyfarfod.

Dylai fformatau cyfarfodydd gefnogi pwrpas y cyfarfod, llywodraethu effeithiol, cyfranogiad ystyrion a phresenoldeb da, a lleihau rhwystrau i gyfranogiad a chynnal ansawdd y drafodaeth, y craffu a'r ymgysylltiad.

Cyfarfodydd wyneb yn wyneb

- ❖ Defnyddio ymgysylltu wyneb yn wyneb i gefnogi pwrpas y cyfarfod, llywodraethu effeithiol a chyfranogiad ystyrion yn y ffordd orau posibl.
- ❖ Blaenoriaethu ymgysylltu wyneb yn wyneb ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a Datblygu'r Bwrdd lle mae hyn yn cryfhau cydlyniant y Bwrdd, her adeiladol, dysgu a gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- ❖ Dylai'r rhai sy'n mynychu ddefnyddio cyfarfodydd wyneb yn wyneb i gyfrannu'n weithredol, gwranddo'n dda, ymgysylltu â chydweithwyr a chefnogi diwylliant a ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd.

Cyfarfodydd Hybrid a Phwyllgor

- ❖ Cytuno ar fformatau cyfarfodydd y Pwyllgor ymlaen llaw, a fydd yn cynnwys opsiwn hybrid yn gyffredinol i wneud y mwyaf o bresenoldeb a lleihau teithio diangen.
- ❖ Defnyddio trefniadau hybrid lle maent yn cefnogi presenoldeb ac yn cynnal ansawdd y drafodaeth, y craffu a'r ymgysylltiad.
- ❖ Lle cytunwyd ar fformat hybrid, dylid cefnogi cyfranogiad rhithwir fel y gall yr holl fynychwyr gyfrannu'n ystyrion at drafodaeth, craffu a gwneud penderfyniadau.

Cefnogi aelodau'r Bwrdd, staff, cyflwynwyr ac ymwelwyr

- ❖ Bydd anghenion hygyrchedd, iaith, digidol neu gymorth arall ar gyfer aelodau'r Bwrdd, staff, cyflwynwyr ac ymwelwyr yn cael eu nodi ymlaen llaw lle bo modd, gyda threfniadau addas neu addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud lle bo angen.
- ❖ Bydd Cadeiryddion, Arweinwyr Gweithredol ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau y croesewir pob cyfranogwr, a'u bod yn cael eu briffio a'u cefnogi i gyfrannu'n gynhwysol ac yn ystyrion.
- ❖ Gall cymorth gynnwys dolenni clyw, cymorth iaith Arwyddion Prydain, cyfieithu i'r Gymraeg, deunyddiau hygyrch, papurau a rennir ymlaen llaw, neu drefniadau eraill sy'n briodol i anghenion unigol.
- ❖ Bydd yr holl Gyfarwyddwyr a'r mynychwyr yn defnyddio iaith glir a hygyrch ac yn osgoi terminoleg broffesiynol, dechnegol neu eithriadol ddiangen.
- ❖ Bydd y Bwrdd yn hyrwyddo amgylchedd croesawgar lle gall pobl gyfrannu'n agored, yn enwedig wrth rannu profiadau bywyd, profiad staff, arbenigedd proffesiynol neu fewnwelediad cymunedol.



Ymweliadau â safleoedd a chyfleusterau

- ❖ Mae ymweliadau â safleoedd a chyfleusterau yn helpu cyfarwyddwyr y Bwrdd i ddeall y cyd-destun lleol, gwasanaethau, profiad staff a materion sy'n berthnasol i'r ardal yr ymwelir â hi.
- ❖ Dylai ymweliadau gael eu cefnogi gan gyd-destun priodol, sy'n cynnwys materion allweddol, cyfleoedd a safbwyntiau perthnasol ar wasanaethau, staff neu gymunedau.
- ❖ Mae cyfarwyddwyr a mynychwyr yn defnyddio ymweliadau i wrando, gofyn cwestiynau a myfyrio ar sut mae mewnwelediad lleol yn llywio craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau.

Ymuno â chyfarfod rhithwir

- ❖ Paratoi ymlaen llaw drwy ddilyn canllawiau ymuno penodol i gyfarfodydd, defnyddio offer addas, gwirio'r cysylltiad, y camera a'r microffon, a sicrhau bod dyfeisiau wedi'u gwefru neu wedi'u cysylltu â phŵer.
- ❖ Ymuno o leoliad priodol, gan ddefnyddio clustffonau lle bo angen, osgoi dyfeisiau a rennir, lleihau sŵn cefndir a diogelu gwybodaeth gyfrinachol.
- ❖ Rheoli'r camera, y microffon a'r cefndir mewn ffordd sy'n cefnogi cyfranogiad effeithiol ac yn lleihau aflonyddwch.

Defnyddio sgwrs cyfarfod

- ❖ Dim ond at ddibenion logisteg y dylid defnyddio sgwrs cyfarfod, megis anawsterau technegol, ceisiadau i siarad lle nad yw'r swyddogaeth codi llaw ar gael, neu hysbysu'r Cadeirydd os oes angen i rywun adael.
- ❖ Ni ddylai trafodaeth, dadl, cwestiynau, sylwadau na phwyntiau sylweddol eraill sy'n berthnasol i fusnes y Bwrdd neu'r Pwyllgor ddigwydd drwy sgwrs Teams. Dylid codi'r materion hyn ar lafar yn y cyfarfod ffurfiol fel eu bod yn weladwy i bawb sy'n bresennol, y gallir eu rheoli gan y Cadeirydd a'u cofnodi'n briodol yn y cofnodion lle bo angen.
- ❖ Gall negeseuon sgwrsio fod yn ddatgeladwy o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, gan gynnwys gofynion Rhyddid Gwybodaeth. Felly, dylai trafodaeth sylweddol ddigwydd o fewn y cyfarfod ffurfiol fel y gallir ei rheoli'n briodol a'i hadlewyrchu yng nghofnod y cyfarfod.